

6 Awst 2018

David Gordon
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng
Nghymru
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Mr Gordon

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru – cyflwyniad gan y Bwrdd Parôl

Diolch yn fawr am roi'r cyfle i Fwrdd Parôl Cymru a Lloegr gyflwyno sylwadau am yr Ymgynghoriad hwn, ar ôl y dyddiad cau swyddogol. Rydym yn gwerthfawrogi'r estyniad hwn yn fawr iawn.

Mae'r Bwrdd Parôl yn gorff annibynnol sy'n gwneud asesiadau risg ar garcharorion i benderfynu a yw'n ddiogel eu rhyddhau nhw i'r gymuned. Cafodd ei sefydlu yn 1968 o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967 a daeth yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol annibynnol ar 1 Gorffennaf 1996 o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Mae'r achosion y mae'r Bwrdd yn ymdrin â hwy'n cynnwys yr holl ddedfrydau carchar am oes, dedfrydau carchar penagored er diogelwch y cyhoedd (IPP), dedfrydau penodol sy'n gymwys am barôl a nifer o achosion adalw i'r carchar. Gall y Bwrdd hefyd roi cyngor ar symud rhai carcharorion o garchar caeedig i garchar agored.

Mae'r Bwrdd Parôl yn ymdrin ag oddeutu 25,000 o achosion bob blwyddyn, sy'n cael eu cyfeirio atom gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar benderfynu a ellir rhyddhau carcharor yn ddiogel yn ôl i'r gymuned. Y brif flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau fel yma yw diogelu'r cyhoedd.

Mae'r ymateb hwn wedi ei seilio ar adborth gan aelodau'r Bwrdd Parôl a gwaith parhaus sy'n digwydd mewn cydweithrediad â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) ar lefel ranbarthol. I'w wneud yn haws ei ddefnyddio rydym wedi gosod ein ymateb o dan benawdau.

Carchardai

Rydym yn pryderu bod prinder rhai categorïau o garchardai yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny i droseddwr ifanc. Gall hyn gael effaith sylweddol ar adsefydliad y troseddwr tra bo yn y carchar, ac mae'n achosi anawsterau'n aml iawn wrth i droseddwr geisio cadw cysylltiad â'u teuluoedd a ffynonellau eraill o gefnogaeth. Mae'r gwasanaeth yn wael iawn i fenywod a throseddwr ifanc.



3rd Floor, 10 South Colonnade, London E14 4PU



www.gov.uk/government/organisations/parole-board



info@paroleboard.gov.uk



@Parole_Board



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Efydd



0203 880 0885

Yn ôl yr hyn a ddeallwn, mae 39% o'r carcharorion o Gymru'n cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr. Bydd angen i'r gwasanaethau hynny sy'n datblygu sydd wedi eu bwriadu ar gyfer carcharorion o Gymru ystyried yr ystâd gyfan drwy Gymru a Lloegr ac nid y sefydliadau hynny sydd wedi'u lleoli'n ddaearyddol yng Nghymru yn unig.

Llety Rhyddhau Addas

Credwn fod angen BRYs am ragor o safleoedd cymeradwy yng Nghymru, gan gynnwys rhai i fenywod. Mae'r pwysau sydd ar y Safleoedd Cymeradwy ar hyn o bryd yn golygu ein bod yn cael ein hysbysu weithiau na fydd lle ar gael am fwy na chwe mis. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau'r asesiad risg ar amser y rhyddhad ei hun, ac mae'n creu rhwystredigaeth mawr i droseddwr, swyddogion prawf ac aelodau'r Bwrdd Parôl fel ei gilydd. Gall effeithio ar adsefydliad oherwydd cynigir lle mewn rhan arall o'r wlad i rai troseddwr, sydd yn bell iawn o'u cartrefi yn aml iawn.

Troseddwr sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl neu broblem iechyd arall

Gall fod yn anodd iawn cael gafael ar ôl-ofal iechyd meddwl ac mae hyn yn gallu oedi'r broses o ryddhau troseddwr yn sylweddol. Mae teithio'n broblem fawr i droseddwr ac mae rhai'n gorfod teithio am oriau yn ôl ac ymlaen i apwyntiadau gyda gwasanaethau, h.y. mae'r gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig i'w gael ar arfordir y Gogledd ac arfordir y De. Fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, nid ydym yn credu bod digon o adnoddau i ateb y galw am wasanaethau iechyd meddwl. Am fod GIG Cymru'n gwasanaethu'r wlad gyfan, mae potensial i gael trefniadau llawer mwy unedig ar gyfer cyfiawnder troseddol ac Iechyd Meddwl.

Rydym yn pryderu am gysondeb y triniaethau sy'n cael eu darparu pan fydd troseddwr yn trosglwyddo o garchardai yn Lloegr i garchardai yng Nghymru, yn arbennig ar gyfer triniaeth yn ymwneud â chyffuriau.

Carcharorion Benywaidd

Nid oes carchardai i fenywod na safleoedd cymeradwy i fenywod ar hyn o bryd yng Nghymru, ac mae hyn yn creu problemau sylweddol i droseddwr benywaidd wrth iddynt geisio cadw cysylltiad â'u teuluoedd tra byddent yn y carchar. Mae'n creu problemau wrth adsefydlu hefyd, unwaith y bydd y Bwrdd wedi cyfarwyddo y ceir eu rhyddhau.

Darpariaeth Gymraeg

Mae'n rhaid darparu gwasanaethau ac adnoddau yn yr iaith Gymraeg i garcharorion sy'n dewis cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n Gymry Cymraeg iaith gyntaf. Rydym wedi bod yn trafod gyda chydweithwyr yn HMPPS sut i ddatblygu opsiynau i droseddwr sydd eisiau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod eu hadolygiad parôl. Rydym ar fin cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg adolygiedig (yn amodol ar gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg) ac rydym yn ymroddedig i gefnogi troseddwr, lle bynnag y gallwn. Ond, gwyddom yn iawn mai'r unig ffordd y bydd hyn y llwyddo yw os gweithiwn fel system gyfan a hoffem weld adnoddau priodol yn cael eu darparu i alluogi i staff carchardai a phrawf ateb yr anghenion yma. Hoffem weld rhagor o ddata sy'n

esbonio maint y galw am y gwasanaethau hyn fel bod modd comisiynu gwasanaethau priodol. Rydym yn gwybod bod oddeutu 400 o gleientiaid prawf yng Ngwynedd, bod oddeutu 375 o'r rhain yn dewis siarad Cymraeg a bod hanner y rhain yn y carchar.

Rydym hefyd eisiau cefnogi'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried sut i ddenu siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sydd â dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru i wneud cais i ddod yn aelodau o'r Bwrdd Parôl, er mwyn ateb y galw.

Y Gwasanaethau Prawf

Mae'r Gwasanaethau Prawf wrthi'n cyflwyno'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ar hyn o bryd a hoffem sicrhau bod anghenion y troseddwyr yng Nghymru'n derbyn sylw digonol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddyfodol y gwasanaethau prawf yn ddiweddar a byddem yn rhybuddio yn erbyn gwneud unrhyw argymhellion am brofiannaeth heb ymgynghori â'r gwaith yma.


Y Casgliad

Credwn fod angen gwaith partneriaeth sy'n edrych ar yr anghenion ar draws y sbectwm o lefelau o ddiogelwch, gwarchodaeth a chymuned, systemau iechyd a chosb, rhyw ac oedran, ac sy'n rhoi ystyriaeth i ddaearyddiaeth, adeiladau a'r ddarpariaeth o fewn y sefydliadau. Trefn system gyfan sy'n amcannu at gael popeth i gydweithio.

Rydym yn ymwybodol bod grŵp Gweithrediadau a Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru'n ystyried llawer o'r pwyntiau yma ac rydym yn gobeithio y bydd pobl yn ymgynghori â nhw. Byddem hefyd yn cyfeirio at yr adroddiad diweddar gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru "Imprisonment in Wales: a factfile" sy'n esbonio llawer o'r pwyntiau yr ydym wedi eu crybwyll.

Byddai'r Bwrdd Parôl yn hapus i roi rhagor o fanylion am unrhyw rai o'r pwyntiau uchod ac mae'n awyddus i weld sut mae'r ymholiad hwn yn datblygu.

Yn gywir iawn



Martin Jones
Prif Weithredwr
Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr